

## EVANS, ALBERT OWEN (1864 - 1937), archddiacon Bangor

**Enw:** Albert Owen Evans  
**Dyddiad geni:** 1864  
**Dyddiad marw:** 1937  
**Rhiant:** Henry Evans  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** archddiacon Bangor  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Evan Gilbert Wright

Ganwyd 20 Chwefror 1864, mab capten Henry Evans, Caernarfon. Enillodd ysgoloriaeth yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr-Pont-Steffan, a graddio yn B.A. yno yn 1898. Wedi ei ordeinio yn 1898 aeth i Connah's Quay, Sir y Fflint, yn gurad, eithr ymddiswyddodd y flwyddyn ddilynol wedi iddo gael ei ddewis yn arolygwr ysgolion yr Eglwys yn esgobaeth Bangor - a dyna gychwyn gyrfa g r a ddaeth gyda'r mwyaf ei ddylanwad yn yr esgobaeth honno. Yn 1909 cafodd fywoliaeth Llanfaethlu gyda Llanfwrog, sir Fôn. Daeth yn ddeon gwlad Talybolion yn 1918 eithr gadawodd y swydd honno yn 1921 pan wnaethpwyd ef yn archddiacon Bangor. Yr oedd yn gweithio yn yr esgobaeth yr union adeg pryd yr oedd y mudiad i ddatgysylltu a dadwaddoli'r Eglwys yng Nghymru yn ei anterth; yn y mudiad hwn bu iddo ran flaenllaw yn y gwaith o amdiffyn yr Eglwys; yn 1906, e.e., bu'n brysur yn dwyn ynghyd ffigurau ac ystadegau yngl n â'r esgobaeth i'w cyflwyno i Gomisiwn y Llywodraeth ar yr Eglwys. Pan gafwyd Datgysylltiad a Dadwaddoliad bu Evans yr un mor brysur yn ceisio trefnu i'r newid mawr yn hanes yr Eglwys fod mor esmwyth ag a oedd yn bosibl. O 1901 hyd 1915 bu'n golygu cyfrolau blynyddol y *Bangor Diocesan Calendar*, cyhoeddiad a oedd yn nodedig am werth y wybodaeth a geid ynddo. Yr oedd ganddo dros 4,000 o gyfrolau yn ei lyfrgell bersonol a llawer o argraffiadau o'r *Llyfr Gweddï Gyffredin* yn eu plith. Yr oedd yn r o bersonoliaeth gref ac yn bregethwr dawnus yr oedd galw mawr amdano trwy Gymru. Bu farw 22 Medi 1937.

Ysgrifennodd lawer o lyfrau, esboniadau ar gyfer ysgolion Sul, ac erthyglau - yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ei waith pennaf ydoedd *A Chapter in the History of the Welsh Book of Common Prayer*, 3 cyfrol, 1922; gwaith gwerthfawr arall oedd *Minutes and Proceedings of an old Tract Society of Bangor Diocese, 1804-12*. Heblaw pregethau a'i siarsiau fel archddiacon cyhoeddodd *A few Episcopal Visitation Queries*, 1937, *Memorandum on the Legality of the Welsh Bible and Prayer Book*, ac erthyglau (yng nghyhoeddiadau Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, y *Welsh Outlook*, *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, etc.), ar destunau megis 'Life and Work of Edmund Prys,' 'Three Old Foundations,' 'Bishop Nicholas Robinson,' 'Thomas a Kempis and Wales,' a 'Some Welsh Agricultural Writers.' Cedwir swm helaeth o'i lawysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

### Awdur

Y Parchedig Ganon Evan Gilbert Wright, (1903)

### Ffynonellau

Am rai o'i erthyglau gweler *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1922-3

*Y Cymmrodor*, xxxix, xlii

*Journal of the Welsh Bibliographical Society*, 1932

*The Welsh Journal of Agriculture*, vii

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20732613](https://www.wikidata.org/wiki/Q20732613)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

